Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Ionawr 2024

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cyflwynwyd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)[1] (y Bil) a Memorandwm Esboniadol, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Gweinidog), ar 2 Hydref 2023.[2]

**2.** Ar yr un diwrnod, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn[3].

**3.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 15 Tachwedd 2023[4], gan:

- Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
- Michael Kay, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Etholiadau
- Mathew Xerri, Pennaeth Polisi Etholiadau, Is-adran Etholiadau

**4.** Gwnaeth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ymgymryd â'r gwaith o graffu ar bolisïau'r Bil.[5]

**5.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil hefyd o ran y materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.[6]

[1] Llywodraeth Cymru, Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)
[2] Memorandwm Esboniadol
[3] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2023
[4] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2023
[5] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Diben y Bil a'r angen amdano

**6.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai diben cyffredinol y Bil yw:

- Darparu ar gyfer cofrestru etholwyr yn awtomatig yn amodol ar ei dreialu'n llwyddiannus a chryfhau gweinyddu etholiadol drwy sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol;
- Bwrw ymlaen â diwygio'r prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau cymunedol ac etholiadol a diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel), gan roi'r mwyafrif o swyddogaethau blaenorol y Panel i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Gwella hygyrchedd etholiadau datganoledig ar gyfer pleidleiswyr anabl yn ogystal â gwella diogelwch ymgeiswyr drwy foderneiddio a gwella'r diffiniad o drosedd dylanwad gormodol.[7]

**7.** Yn ei ddatganiad i gyflwyno'r Bil, dywedodd y Gweinidog:

> *"Bydd y Bil a'r pecyn diwygio ehangach yn helpu i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn etholiadau Cymreig. Bydd yn gwella hygyrchedd i bobl anabl ac yn cymryd camau i sicrhau bod pob pleidleisiwr cymwys wedi'i gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau Cymreig drwy ddarpariaethau newydd arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol gofrestru etholwyr cymwys ar y gofrestr llywodraeth leol yn awtomatig."*[8]

**8.** Cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar "ein cynigion ar gyfer diwygio etholiadol i foderneiddio proses gweinyddu etholiadau Cymru"[9] a oedd yn cyd-fynd â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. O ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft, dywedodd swyddog y Gweinidog:

> *"… to set out what our best estimates of cost were at that point, as a way of trying to find out from colleagues, in giving their views on our proposals, what the associated costs would be. So, I think what was published alongside the Bill was effectively the*

---

[7] Memorandwm Esboniadol, tudalen 8
[8] Datganiad Ysgrifenedig: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)
[9] Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol

*second iteration of an RIA, more focused on the provisions that were in the Bill, but we have been quite public and collaborative in our approach to preparing that RIA."*[10]

## Crynodeb o'r costau

**9.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi crynodeb o'r costau trosiannol a rheolaidd dros gyfnod arfarnu o ddeng mlynedd, o 2024-25 i 2033-34, gan ganiatáu ystyried dau gylch etholiad. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu y bydd costau yn disgyn ar Lywodraeth Cymru, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac Awdurdodau Lleol.[11]

**10.** Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y Bil yw £19,790,000, sy'n cyfateb i £16,187,000 mewn gwerth presennol.

***Tabl 1 Costau sy'n gysylltiedig â Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024-25 i 2033-34***

| Disgrifiad o'r Gost | Cost (£000) |
|---|---|
| **Costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru (2024-25 a 2025-26)** | |
| Trosiannol | 575 |
| **Cyfanswm** | **575** |
| **Costau gweinyddol i Awdurdodau Lleol (2024-25 i 2033-34)** | |
| Trosiannol | 44 |
| Rheolaidd | 15,117 |
| **Cyfanswm** | **15,161** |
| **Costau gweinyddol ar gyfer Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (2024-25 i 2033-34)** | |
| Trosiannol | 1,030 |
| Rheolaidd | 4,992 |
| **Cyfanswm** | **6,022** |

**11.** Cyfanswm y costau gweinyddol fydd £21,759,000, gan gynnwys £1,649,000 sy'n drosiannol a £20,110,000 sy'n rheolaidd. Fodd bynnag, caiff hyn ei wrthbwyso gan arbedion costau rheolaidd o £1,969,000, yn ymwneud â sefydlu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol; newidiadau i 'Arolygon Ymgeiswyr' sy'n arbedion o ran cost cyfle am nad oes angen gwneud rheoliadau mwyach; a diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Disgwylir i ran o'r arbedion cost

[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 135
[11] Memorandwm Esboniadol, tudalen 79

a nodwyd gael eu trosglwyddo i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i ariannu'r gwaith o weithredu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a'r swyddogaethau newydd sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig.

**12.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo £575,000 o'r costau gweinyddol; y bydd yr holl gostau trosiannol yn cael eu hysgwyddo yn 2024-25 a 2025-26 ac na fydd unrhyw gostau rheolaidd. Disgwylir i awdurdodau lleol ysgwyddo costau gweinyddol o £15,161,000 dros y cyfnod arfarnu, y mae'r mwyafrif ohono'n ymwneud â chofrestru pleidleiswyr heb gais. Mae disgwyl i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ysgwyddo costau o £6,022,000.[12]

**13.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod costau gweinyddol y Comisiwn Etholiadol yn "debygol o fod yn fach iawn"[13] ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys. Mae nifer o gostau cyfle wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n cynnwys yr amser a dreuliwyd gan aelodau presennol o staff ar weithredu'r Bil a datblygu rheoliadau.[14] Mae holl gostau uniongyrchol Llywodraeth Cymru wedi'u nodi fel costau cyfle.

**14.** Pan holodd y Pwyllgor sut y bydd y caiff y buddion hynny eu monitro i sicrhau bod y Bil yn rhoi gwerth am arian, esboniodd y Gweinidog:

> *"The legislation is about modernising our electoral system, improving the accessibility of our electoral system through automatic registration … improving the democratic health, that is ensuring that people are on the electoral register, which then facilitates the ability to … encourage people to participate and to motivate people within the electoral processes."*[15]

**15.** Gan gyfeirio at y dull yr oedd y Gweinidog wedi'i fabwysiadu i baratoi'r amcangyfrifon cost ar gyfer y Bil ac a oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi darlun llawn o'r costau posibl sy'n gysylltiedig â'r newid deddfwriaethol hwn, ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

> *"I think the information that's provided is the best information that is available. There are obviously some areas where there are uncertainties as to costing because they relate to things that are going to be done in the future, or things that are work*

[12] Memorandwm Esboniadol, tudalen 75
[13] Memorandwm Esboniadol, tudalen 75
[14] Memorandwm Esboniadol, tudalen 146
[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 147

> *in progress, particularly, for example, with technology. The bodies that obviously are most important that we've been engaging with, of course, are local authorities, the Electoral Commission, the Local Democracy and Boundary Commission for Wales, and also Welsh Government economists, the chief economist and Welsh budget officials. So, it's work in progress, but it's also taking, really, all the expert evidence and all those who have expertise in this area and the potential costings."*[16]

## Rhyngddibyniaeth â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

**16.** Tybiaeth allweddol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw y bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cael Cydsyniad Brenhinol[17]. Mae'r Bil hwn yn cynnwys darpariaeth i newid tymhorau'r Senedd o bum mlynedd i bedair blynedd ac felly, y rhagdybiaeth yw y bydd y cyfnod arfarnu deng mlynedd ar gyfer y Bil yn cwmpasu dau etholiad Senedd (Mai 2026 a Mai 2030) a dau etholiad lleol (Mai 2027 a Mai 2032).

**17.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn datgan:

> *"Mae nifer o ryngddibyniaethau gyda Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ac mae swyddogion yn cydweithio ar y meysydd hynny. Mae'r costau a'r manteision ariannol a nodir yn yr asesiad hwn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Felly, mae'r ffigurau sylfaenol yn seiliedig ar gyflwyno ddarpariaethau'r Bil hwnnw. Mae costau a manteision yn cael eu hasesu ar wahân, ond rydym wedi cydlynu gwaith lle bo hynny'n bosibl, er enghraifft drwy ddefnyddio tybiaethau a dulliau tebyg ar gyfer amcangyfrif costau."*[18]

**18.** Holodd y Pwyllgor y Gweinidog ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn yn mynd rhagddo yn ei fformat presennol, o ystyried y rhyngddibyniaethau sy'n bodoli rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth. Dywedodd y Gweinidog:

> *"They're both independent pieces of legislation, so they both stand in their own respect. There are, obviously, crossovers,*

[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 134
[17] Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)
[18] Memorandwm Esboniadol, tudalen 78

> *particularly with regard to the establishment of the electoral management board and so on, and there would be technical changes that would need to be made if one of the Bills failed—there would be certain things there. But the core objectives of the Bill I don't think would be impacted in terms of undermining each of the Bills in their own individual capacity.”*[19]

**19.** Ymhelaethodd swyddog y Gweinidog ar hyn ymhellach, gan ddweud nad oedd llawer iawn o ryngddibyniaethau at ddibenion ariannol.[20]

## Barn y Pwyllgor

**20.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu nod y Bil hwn i gynyddu cyfranogiad yn etholiadau Cymru a gwella hygyrchedd i bleidleiswyr. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft wedi'i lunio i gyd-fynd â Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru a'r ymgynghoriad ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol, cyn cyflwyno'r Bil. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi gofyn am farn rhanddeiliaid ar y cynigion, a'r costau cysylltiedig, a nodir yn y Papur Gwyn ac yn croesawu'r dull "cyhoeddus a chydweithredol" a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi ei hamcangyfrifon costau.

**21.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod nifer o ryngddibyniaethau rhwng y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)[21]. Fodd bynnag, nodwn fod y rhyngddibyniaethau ariannol yn fach iawn. Trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar wahân ac mae wedi cyflwyno adroddiad.[22]

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

---

[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 150
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 151
[21] Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)
[22] Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

# 3. Gweinyddu, Cofrestru Etholiadol a Pheilota

## Y Bwrdd Rheoli Etholiadol

**23.** Mae adran 1 o'r Bil yn cynnig mewnosod rhan newydd yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013[23], sy'n gosod dyletswydd ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) i sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol fel pwyllgor statudol. Pwrpas y rhain fyddai cydgysylltu gweinyddiaeth etholiadau a refferenda Cymru, sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Fwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru.

**24.** Disgwylir i'r newid greu arbedion o £70,000 y flwyddyn o 2025-26 i Lywodraeth Cymru, o ganlyniad i beidio â gorfod hwyluso Bwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru mwyach. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, fel rhan o'r Comisiwn, yn gallu adennill costau, caffael gwasanaethau a llunio contractau.

**25.** Pan ofynnwyd am ragor o fanylion am gyfrifo costau rhedeg y Bwrdd Rheoli Etholiadol a sut yr oedd y Gweinidog wedi ymgysylltu â phartneriaid yn yr Alban i gyrraedd y ffigur hwn, dywedodd swyddog y Gweinidog:

> *"... we've worked closely and taken account of what their running costs are, but this is a slightly different model and, as the Counsel General said, there is potentially some opportunities from having it hosted by the democracy and boundary commission in terms of the economies of scale that can be made by having one body looking at a few different things in the democratic space."*[24]

**26.** Gofynnodd y Pwyllgor hefyd a roddwyd ystyriaeth i strwythurau staffio'r Comisiwn o ganlyniad i'r newid hwn ac a oedd y rhain wedi'u costio. Dywedodd swyddog y Gweinidog:

> *"Yes, we've got a working group in place at the moment where we're taking account of the changes in the commission's function. So, it's not just a rebrand, obviously; it's having boundary responsibility conferred on it, and it's having the responsibilities of the independent remuneration panel*

[23] Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 155

*conferred on it and the establishment of the new electoral management board. We're working closely with them and different parts of the Welsh Government who are looking at those changes."*[25]

**27.** Aeth ymlaen i ddweud:

*"We're working very closely with [the independent remuneration panel] in taking soundings from people like the Electoral Commission as well, and the Association of Electoral Administrators and the Wales Electoral Coordination Board on how we can make sure that we're supporting the EMB to be operational and effective from day one, given the timescales around the lead-up to the 2026 election."*[26]

## Cofrestru Etholiadol a Pheilota

**28.** Mae'r Bil yn cyflwyno cofrestru etholwyr yn awtomatig ac yn galluogi cynlluniau peilot i gael eu cynnal i asesu'r "dull mwyaf effeithiol o gofrestru etholwyr yn awtomatig ar y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru."[27]

**29.** Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid etholiadol allweddol eraill i ddatblygu cynllun peilot cyn cyflwyno is-ddeddfwriaeth. Wrth i'r modelau peilot amrywiol gael eu datblygu, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

*"bydd y Gweithgor yn sefydlu goblygiadau ariannol llawn pob model cyn ei gyflwyno. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu costau'r cynlluniau peilot hyn a bydd yn cyhoeddi'r goblygiadau ariannol llawn cyn cyflwyno'r cynllun. Os penderfynir bwrw ymlaen â chofrestru awtomatig, bydd dadansoddiad llawn o gostau yn cyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol a fydd yn ofynnol cyn cyflwyno'r cynllun yn llawn. Bydd hyn yn darparu'r goblygiadau ariannol diweddaraf yn seiliedig ar y model a fydd yn cael ei weithredu ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru."*

[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 160
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 161
[27] Memorandwm Esboniadol, tudalen 14

**30.** Pan ofynnwyd iddo ymhelaethu ar y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r newidiadau hyn drwy is-ddeddfwriaeth, dywedodd y Gweinidog:

> *"What those are going to cost is actually going to depend upon the particular models or the different types of pilot that are actually engaged, who was actually involved and which local authorities might be within that, and that depends on who chooses to come forward to participate with them, and so on. So, it is one of those that, again, is work in progress and it's not really possible to say. We have a broad range of views. We know what happened, for example, when we dealt with changes relating to 16-plus voting, but in this case, et cetera, it's one of those that is impossible to be precise about at this stage and only to really have an assessment. I think there's a lot of pre-marketing work that goes on, of course, in terms of trying to assess some of these…"*[28]

**31.** Ymhelaethodd swyddog y Gweinidog ar hyn, gan ddweud:

> *"… in considering the best design for pilots for automatic voter registration, we're working very closely with local government colleagues. So, I think the design is yet to be settled, because we're trying to do it in collaboration, basically, rather than creating it in Welsh Government headquarters and then sending it out."*[29]

**32.** Aeth y Pwyllgor ymlaen i holi a ellid defnyddio dulliau tebyg i ddarparu tystiolaeth i ddangos y costau. Eglurodd swyddog y Gweinidog:

> *"… there hasn't been much recent work that has happened and that would be applicable in Wales and close enough, in terms of the technological change and so on, for us to be able to identify that as something that would be a helpful example that we could draw an estimate of costs from. From a policy perspective, it's been very helpful, but in terms of costings, not so much."*[30]

[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 173
[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 174
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 182

## Systemau Rheoli Etholiadol

**33.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd costau i Lywodraeth Cymru o ran peilota cofrestru awtomatig yn canolbwyntio ar y newidiadau sy'n ofynnol i'r System Rheoli Etholiadol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y byddai angen cynnal trafodaethau manwl rhwng darparwyr Systemau Rheoli Etholiadol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ganfod amcangyfrif ar gyfer y costau hyn.

**34.** Mewn perthynas â newidiadau sy'n gysylltiedig â Systemau Rheoli Etholiadol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau untro. Fodd bynnag, mae'r rhain hefyd yn anhysbys ar hyn o bryd, o ystyried "natur arbenigol y gwaith hwn".[31] Mae'n esbonio bod tua £1.6 miliwn wedi'i dalu i ddarparwyr Systemau Rheoli Etholiadol yn 2020-21 i gefnogi newidiadau yn dilyn ymestyn yr etholfraint a bod y gost hon yn cael ei darparu at ddibenion enghreifftiol. Mae hefyd yn egluro nad oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â dileu'r gofrestr agored yng Nghymru.

**35.** Pan holodd y Pwyllgor pam na ellid asesu cost maes arbenigol fel Systemau Rheoli Etholiadol, dywedodd y Gweinidog fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo. Ymhelaethodd swyddog y Gweinidog ymhellach, gan ddweud:

> *"…there's quite a lot of variability in what we're looking at here. So, the EMS providers are big databases. Some of them have got data warehousing functions and some of them don't. Some of them, depending on the local authorities that host the pilots, will depend on how much work is needed to integrate the data sources that they've got available to them with the EMS themselves. So, there's just quite a lot of variability in this … and also quite a lot of commercial confidentiality in this in terms of how much work we think would be required for any one of these days. So, that's why we were reluctant to present a figure that might be misleading."*[32]

**36.** Mae costau staff sy'n gysylltiedig â newidiadau sy'n gysylltiedig â Systemau Rheoli Etholiadol wedi'u nodi fel costau cyfle i Lywodraeth Cymru. Maent yn dod i

[31] Memorandwm Esboniadol, tudalen 89
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 169

£9,500 yn ystod 2025-26 ar gyfer llunio rheoliadau a £12,000 ar gyfer rhedeg gweithgorau i ddatblygu cynlluniau peilot yn 2024-25.[33]

**37.** Tybir y bydd costau i lywodraeth leol o 2026-27 ymlaen; fodd bynnag mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud bod hyn yn ansicr ac yn dibynnu ar ymarferion peilot. Amcangyfrifir y bydd costau "cloddio data"[34] ar gyfer pob awdurdod lleol yn £495,000 ar gyfer 2026-27 a 2027-28, ar gyfer swyddog ychwanegol sy'n gweithio'n llawn amser am 3 diwrnod yr wythnos yn ystod y ddwy flynedd gyntaf. Y gost ar gyfer y blynyddoedd dilynol fyddai £330,600 am ddau ddiwrnod o waith yr wythnos.

**38.** Yn ogystal, bydd cost ychwanegol i awdurdodau lleol gysylltu ag etholwyr i roi hysbysiad cofrestru iddynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif cost o £1.5 miliwn y flwyddyn i anfon llythyr papur at bob etholwr yng Nghymru. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud bod potensial ar gyfer arbedion, os cysylltir ag etholwyr drwy e-bost neu ddulliau cyfathrebu electronig eraill.

**39.** Bydd y costau hyn yn ychwanegol at gostau'r canfasiad blynyddol gan y bydd angen i ddwy system gofrestru redeg ar yr un pryd. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> *"Er bod cyfleoedd i arbed costau, mae'n debygol y bydd y gost ychwanegol yn un hirdymor o ystyried y ddyletswydd ychwanegol a roddir ar bob awdurdod."*[35]

**40.** Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y bydd awdurdodau lleol yn colli "rhywfaint o incwm"[36] o ddileu'r gofrestr agored, fodd bynnag nid yw'r gost hon yn hysbys.

**41.** Mae cost anhysbys hefyd o ddatblygu Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API), a fydd yn pontio rhwng llwyfan gwybodaeth etholiadau Cymru, y darperir ar ei gyfer gan y Bil, a'r System Rheoli Etholiadol. Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei bod "bron yn amhosibl gwybod beth yw cost datblygu API".[37]

[33] Memorandwm Esboniadol, tudalen 90
[34] Memorandwm Esboniadol, tudalen 90
[35] Memorandwm Esboniadol, tudalen 90
[36] Memorandwm Esboniadol, tudalen 91
[37] Memorandwm Esboniadol, tudalen 107

**42.** Wrth gael ei holi ynghylch y gost bosibl ar gyfer rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau i bontio'r llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr â'r systemau rheoli etholiadol, dywedodd swyddog y Gweinidog:

> *"We regularly talk to the EMS providers, so we're not fully away from them, but we would want to engage on this in a commercial process again. I think we're also mindful of what work other people might be doing, like Scotland, or the Electoral Commission, or the UK Government, in terms of working with the EMS providers to develop APIs for other purposes, so that there might be opportunity for us to consider it in the round, and if there's a more efficient way of us approaching the technology providers with the same asks from different Governments."*[38]

## Barn y Pwyllgor

**43.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y diffyg manylion a ddarparwyd am y costau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn feirniadol o ddulliau tebyg a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol wrth gyflwyno Biliau fframwaith fel Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)[39] a Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)[40]. Rydym yn nodi ymrwymiad y Gweinidog i gyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys costau manwl, ochr yn ochr ag unrhyw reoliadau yn y dyfodol ac yn cydnabod rhai o'r cyfyngiadau o ran darparu'r costau hynny, yn fwyaf nodedig ynghylch treialu systemau cofrestru pleidleiswyr awtomatig. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor sawl gwaith yn ystod y gwaith craffu fod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig ag agweddau craidd y Bil.

**44.** Er mwyn ein galluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil, disgwyliwn i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys amcangyfrif gorau o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth, ac rydym yn siomedig nad dyna'r achos yma. Mae'r diffyg amcangyfrifon diriaethol a ddarparwyd ar gyfer y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn peri pryder ac mae'r Pwyllgor yn disgwyl cael gwybod am gynnydd yn y maes hwn yn ystod gweddill y Senedd.

[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 191
[39] Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)
[40] Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

**45.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y costau sy'n ymwneud â newidiadau i'r Systemau Rheoli Etholiadol yn anhysbys i raddau helaeth o ystyried natur arbenigol a sensitifrwydd masnachol y gwaith. Fodd bynnag, o ystyried bod treialu cofrestru awtomatig, a'r newidiadau dilynol i Systemau Rheoli Etholiadol, yn ganolog i nodau'r Bil, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael rhagor o wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â chynlluniau peilot unigol wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu Asesiadau o'r Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o dan y Bil hwn.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am gostau sy'n ymwneud â newidiadau i'r Systemau Rheoli Etholiadol wrth iddynt ddod yn glir; gan gynnwys manylion ar sut yr asesir cost effeithiolrwydd cynlluniau peilot unigol.

# 4. Agweddau eraill ar y Bil

## Hygyrchedd ac Amrywiaeth

**46.** Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i adrodd ar y camau a gymerwyd gan Swyddogion Canlyniadau i gynorthwyo'r rheini sydd ag anabledd, yn eu gallu i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

**47.** Nid yw'r costau ar gyfer y Comisiwn Etholiadol wedi'u mesur ac nid ydynt yn hysbys, dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddai'r costau'n isel ac "yn rhan o weithgarwch arferol ar ôl pleidleisio".[41] Mae costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth yn cynnwys llunio canllawiau i Swyddogion Canlyniadau ac er nad yw'r costau hyn yn hysbys, disgwylir iddynt fod yn isel.

**48.** Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach ar y costau sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth i ddeddfu newidiadau i gynorthwyo pleidleiswyr anabl. Atebodd swyddog y Gweinidog:

> *"…there will be a duty in secondary legislation around making equipment available. I think we would want to consider what equipment is already needed, what is the additional demand, potentially, and what is the most efficient of both parts in terms of the funding mechanism—is it better to do a population-size grant, or is it needs-based bids ….that's something where we'd want to engage with colleagues and local government to determine the most appropriate mechanism in the future."*[42]

**49.** Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi gwasanaethau ar waith i hybu amrywiaeth o ran nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol personau sy'n ceisio cael eu hethol i'r Senedd ac i lywodraeth leol.

**50.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog egluro ymhellach y gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r Bil i fynd i'r afael ag amrywiaeth, yn enwedig o ran amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ymgeiswyr. Esboniodd y Gweinidog:

> *"I think that is something that is going to tax minds in terms of how you actually address that. What I think is important is that*

[41] Memorandwm Esboniadol, tudalen 99
[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 187

> *it's actually recognised within the legislation, and at least provides a platform now for beginning to, I think, address those sorts of issues that you're raising. Precisely how, I think, is the really challenging part that I think will be the subject of future discussions."*[43]

**51.** Aeth swyddog y Gweinidog ymlaen i ddweud:

> *"We are looking at commissioning research to make sure that there's a fair and consistent way of capturing that and being able to act on it, and being able to target the interventions that are listed in section 28 in relation to that."*[44]

## Asesiad Fforddiadwyedd

**52.** Mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid ym mis Mai 2023, nododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol fwriad Llywodraeth Cymru i gynnwys "dadansoddiad ariannol atodol sy'n canolbwyntio ar fforddiadwyedd"[45] ar gyfer Biliau yn y dyfodol. Roedd y llythyr mewn ymateb i argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor ar oblygiadau ariannol Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).[46]

**53.** Mae'r asesiad fforddiadwyedd ar gyfer y Bil hwn yn ystyried yr un cyfnod â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac mae'n asesiad ariannol yn unig sy'n cynnwys costau arian parod a buddion sy'n rhyddhau arian yn unig. Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn nodi:

> *"Byddai unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach a nodwyd mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu dileu o asesiad fforddiadwyedd."*[47]

**54.** Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn dweud bod costau arian parod a buddion rhyddhau arian parod wedi'u haddasu i adlewyrchu chwyddiant a ragwelir yn ystod y cyfnod arfarnu, ar sail y rhagamcanion datchwyddwyr Cynnyrch Mewnladol Crynswth sydd wedi'u cynnwys yn Rhagolygon Economaidd a Chyllid

---

[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 205
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 208
[45] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, Mai 2023
[46] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), tudalen 7
[47] Memorandwm Esboniadol, tudalen 146

y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (Mawrth 2023).[48] Gan mai dim ond hyd at 2027-28 y mae rhagamcan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyrraedd, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod rhagamcanion y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfartaledd wedi'u defnyddio ar gyfer gweddill y cyfnod arfarnu. Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn nodi, yn seiliedig ar gyfanswm costau'r Bil a'r wybodaeth a amlinellir yn yr asesiad, y bydd y Bil yn fforddiadwy dros y cyfnod arfarnu.

**55.** Pan ofynnwyd iddo ymhelaethu ar y dull a ddefnyddiwyd i asesu fforddiadwyedd y Bil dros y cyfnod arfarnu, dywedodd y Gweinidog:

> *"… the affordability assessment is actually a product of the recommendations from this particular committee. It relates also to value for money and also the building into our costings of inflation as well to try and create more accurate."*[49]

**56.** Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai asesiad fforddiadwyedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Biliau yn y dyfodol, a chadarnhaodd y Gweinidog mai dyna fyddai'r sefyllfa.[50]

## Barn y Pwyllgor

**57.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad y Gweinidog i roi gwasanaethau ar waith i hybu amrywiaeth o ran nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol personau sy'n ceisio cael eu hethol. Rydym hefyd yn croesawu'r gwelliannau a gynigir yn y Bil i ddarparu cymorth i bleidleiswyr anabl yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am yr ansicrwydd ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater hwn yn ymarferol. Cyfeiriodd swyddog y Gweinidog at ymchwil yr oedd y llywodraeth yn bwriadu ei chomisiynu i gasglu gwybodaeth o'r fath, ond nid oedd yn glir i'r Pwyllgor sut yr oedd y Gweinidog yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth hon i gyflawni amcan y Bil o wella amrywiaeth. Rydym hefyd yn siomedig nad yw'r gwaith hwn wedi'i wneud yn gynharach, ymhell cyn cyflwyno'r Bil.

**58.** Canfu'r Pwyllgor fod yr asesiad fforddiadwyedd a ddarparwyd ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ddefnyddiol iawn. Mae'r Pwyllgor wedi dadlau ers tro bod Llywodraeth Cymru yn darparu asesiad ariannol manwl sy'n canolbwyntio'n benodol ar y costau arian parod sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth,

---

[48] Economic and fiscal outlook – Mawrth 2023
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 232
[50] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, 15 Tachwedd 2023, paragraff 239

fel y gwnaed yn glir mewn argymhellion gan y Pwyllgor hwn mewn perthynas â Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru).[51] Rydym yn croesawu'n fawr yr ymrwymiad a wnaed gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn ei llythyr,[52] yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gynnwys asesiad o'r fath i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol wrth gyflwyno Biliau yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn ystod cyfnod o chwyddiant uchel, fel yr un yr ydym yn ei brofi ar hyn o bryd, ac mae'n rhoi sicrwydd bod y ddeddfwriaeth hon wedi'i chostio'n gywir. Rydym hefyd yn croesawu'r tryloywder ychwanegol y mae'r asesiad fforddiadwyedd yn ei ddarparu ac fe'n calonogir gan sylwadau a wnaed gan y Gweinidog.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gostau sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n cael ei wneud i gynyddu hygyrchedd etholiadau i bleidleiswyr anabl.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am ganlyniadau'r ymchwil y mae'n bwriadu ei gomisiynu i hyrwyddo amrywiaeth mewn personau sy'n ceisio swyddi etholedig. Mae hyn yn cynnwys:

- sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei chasglu a'i choladu; a
- sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth honno i wneud ymyriadau wedi'u targedu.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod cyflwyno asesiad fforddiadwyedd, fel yr un a ddarperir yn y Bil hwn, yn fodel arfer da ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'r dull newydd hwn.

[51] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), tudalen 7
[52] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid, Mai 2023